

Teithiau Cerdded Gwledig o Gwmpas Wreccsam

Taith Gerdded 6 – RHOSLLANNERCHRUGOG

Cronfeydd Dŵr y Mynydd (5½ milltir / 3 awr)

Rhos – Tŷ Mawr – Mynydd Esclusham – Bronwylfa – Rhos

- *Mae'n bosibl cysylltu'r daith hon â CWAU 3 i greu taith 9 milltir.*

Mae'r daith hon yn esgyniad ysgafn i fyny i Fynydd Esclusham gan fynd heibio i gronfeydd dŵr Tŷ Mawr a Chae-llwyd. Mae'n cynnwys darn byr o rostir. Mae'n dechrau ger y Sun Inn, Stryt y Neuadd, Rhosllannerchrugog (cyfeirnod grid 289468).

Ceir: Mae digon o le i barcio gerllaw.

Bysiau: Mae gwasanaethau bws rheolaidd o Wreccsam, gwybodaeth deithio: 01978 266166.

Gwnewch yn siŵr nad yw eich ci'n crwydro o'r llwybrau troed. Cadwch eich ci ar dennyn pan fyddwch mewn caeau defaid ac ar y mynydd agored lle mae'n hawdd tarfu ar geiliogod y mynydd.

- *Nid yw'r daith yn addas i gadeiriau olwyn, bygis na phlant bach.*

MAE'R CYFARWYDDIADAU MEWN FFONT DYWYLL

Gan ddechrau o'r Sun Inn, Rhos, O'r pentref, dilynwch Lôn y Plas am ychydig at Park Lodge a'i gerfwedd garreg yn portreadu'r haul. Credir bod yr emblem yn rhan o arflun y teulu Jones, perchnogion Plas Llannerchrugog yn y 18fed ganrif hwyr.

Roedd yr adeilad yn rhan o Ystad Llannerchrugog yn wreiddiol a rhedai tramwyfa goediog i'r Llys o yma trwy barctir yr ystad.

Ewch yn ôl am ychydig fetrau i gymryd y llwybr drwy lecyn hir a chul; arferai hwn fod yn rheilffordd Great Western a gysylltai Rhos â Wreccsam. Yn 1893, ffurfiodd grŵp o ddynion busnes Rhos gonsortiw i redeg eu rheilffordd eu hunain i gysylltu'r pentref â Wreccsam. Roedd gan yr hyrwyddwyr gefnogaeth Syr G O Morgan, Aelod Seneddol yr ardal, a Mr Geo T Kenyon, aelod o Fwrdeistref Dinbych a chyfarwyddwr Rheilffordd Ellesmere. Addawyd cefnogaeth ariannol gref iddynt hefyd gan fasnachwyr o'r Rhos a Wreccsam a oedd yn teimlo ei fod yn bwysig iawn i gyfathrebu'n uniongyrchol â Glannau Merswy ac arfordir Gogledd Cymru ac, â chymorth rheilffordd Ellesmere a oedd bron â'i gorffen, â Chanolbarth Lloegr a De Cymru. Bryd hynny, roedd raid iddynt dalu GWR i gludo eu nwyddau i Riwabon ac yna byddai tâl ychwanegol am ddod â nhw i'r Rhos ar y ffordd fawr.

Roedd gan GWR reilffordd fwynau o Gamlas Undeb Swydd Amwythig yn Rhodfa Trefor eisoes. Arferai redeg tu ôl i'r Rhos trwy Heol yr Afon i Waith Brics Copi ac ymlaen i Lwyneinion. Fodd bynnag, pan glywodd GWR am y prosiect, bu iddynt gyflwyno eu cynnig eu hunain a dyma'r cynllun a fabwysiadwyd gan y Senedd.

Agorodd llinell Wrecsam-Rhos i draffig nwyddau ar 1 Hydref 1901 ac i draffig teithwyr ar 1 Mawrth 1905. Gadawodd hyn y brif reilffordd Amwythig yn Felin Puleston i fynd trwy Rostyllen a Legacy i'r Rhos. Estynnwyd y rheilffordd yn hwyrach i'r de o'r Rhos i gysylltu â llinell Pontcysyllte yn Afon Eitha.

Gadewch y llwybr sydd ag arwyneb pan fydd yn troi i'r dde i ffordd breswyl a pharhau ar y glaswellt i gornel chwith bellaf y llecyn agored. Ger y ffordd, trowch i'r chwith a pharhewch hyd nes i chi gyrraedd y chwareli ger Coedwig Llwyneinion. Yn 1757 lesodd Isaac Wilkinson, dyn adnabyddus yn niwydiannau glo a haearn y 18fed ganrif, hawliau cloddio clo a meini haearn o Ystad Cae Glas gerllaw ac adeiladodd ffordd i'r pyllau. Cyflenwai glo o Lwyneinion waith haearn Wilkinson yn y Bers.

Oes bwysicaf Llwyneinion oedd dan berchenogaeth Thomas Jones o Blas Llannerchrugog. Ym mlynnyddoedd cynnar y 19eg ganrif, agorodd waith haearn yma, mewn partneriaeth â Rigby o Benarlâg. Erbyn 1817, roedd gan y gwaith haearn ddau ffwrnais prysur iawn, yn cynhyrchu rhyw 70 tonn o haearn crai bob wythnos. Dyma'r allbwn uchaf yng Ngogledd Cymru bryd hynny.

Dengys map 1865 o byllau Rhiwabon y Gwaith Glo Hanner Sgwâr fel bod i'r de o Waith Brics Llwyneinion. Yn y rhan arall o'r coed, mae hen domenni'n marcio safle'r gwaith glo a weithiodd Hanner Iard Llwyneinion ac o bosibl semiau'r Wal a'r Fainc uchod, yn ôl y Gymdeithas Daearreg.

Ynghyd â glo a meini haearn, roedd gan y goedwig gronfeydd o clai tân ac, yn 1883, sefydlwyd Gwaith Brics Llechi Llwyneinion i elwa ar hyn. Yn adnabyddus fel Gwaith Teils a Brics Llwyneinion yn hwyrach, caeodd ei ddrysau yn 1929.

Gadewch y ffordd, gan ddilyn y llwybr sydd ag arwyddbost iddo ar y chwith ac i mewn i'r coetir. Yn yr haf, mae llaeth y gaseg yn blodeuo ar hyd y llwybr troed hwn a allai fod yn rhan o gyswllt rhwng bryngaerydd Bwlchgwyn a Rhiwabon.

Ymhen rhyw 200 metr, dewch i lwybr amlwg sy'n croesi ar onglau cywir; trowch i'r chwith ac, mewn llinell weddol syth, croeswch bum cae i'r ffordd.

Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 200 metr. Â'r fferm "New Buildings", ar eich dde, trowch i'r chwith i'r lôn. Ar ôl ychydig, byddwch yn gweld Cronfa Ddŵr Tŷ Mawr trwy'r clawdd ar y dde. Dyma'r ail gronfa ddŵr a adeiladwyd gan Gwmni Gwaith Dŵr Wrecsam. Awdurdodwyd hi yn 1902 gan ddeddf seneddol a newidiodd enw'r corff i Gwmni Dŵr Wrecsam a Dwyrain Sir Ddinbych er mwyn nodi'r ardal helaeth yr oedd y cwmni'n ei gwasanaethu. Cymerwyd 4 blynedd i adeiladu'r gronfa ddŵr, sy'n dal 600 miliwn litr o ddŵr, ac agorwyd hi'n swyddogol ar 2 Hydref 1907. Pysgota yw'r unig gamp a ganiateir ar y gronfa ddŵr, sy'n llawn brithyll.

Anwybyddwch yr holl fynedfeydd i gyrraedd cyffordd T, gyda chlwstwr o goed gyferbyn ag o. Trowch i'r chwith, croesi'r hen bont garreg a mynd drwy'r giât. Anwybyddwch y llwybr i'r dde a dilyn y llwybr sydd gerllaw i fyny'r bryn. Dilynwch y llwybr yn syth i fyny'r bryn. Os edrychwch yn ôl,

cewch olwg bendigedig o Gronfa Ddŵr Cae-llwyd. Dyma'r gronfa ddŵr gyntaf a adeiladwyd gan Gwmni Gwaith Dŵr Wreccsam. Sefydlwyd y cwmni gan fesur seneddol yn 1863 a derbyniodd gymeradwyaeth frenhinol flwyddyn yn hwyrach. Erbyn 1874, roedd yn cyflenwi dŵr i ran fawr o ddwyrain Sir Ddinbych a rhan fach o Sir y Fflint. I ymdopi â'r galw cynyddol, cafwyd awdurdod i adeiladu Cae-llwyd fel cronfa ddŵr ychwanegol i gasglu dŵr o bron i 400 hectar (1000 erw) o rostir ar Fynydd Rhiwabon. Cwblhawyd y gronfa ddŵr yn 1878 ac mae'n dal 175 miliwn litr.

Ar ôl i chi basio trwy fynedfa dan y pinwydd gwyllt, dilynwch y trac sy'n gwyro i'r dde. Mae'r llwybr yn gwyro i'r chwith ger rhai coed derw, ac yna'n gwyro i'r dde. Ewch ymlaen i'r fynedfa ar y dde.

Ewch dros y gamfa sydd gerllaw ac ailymuno â'r prif lwybr a chadw i'r dde tuag at gornel y goedwig. Dilynwch y llwybr sy'n cyffwrdd â'r ffens ar y dde yn raddol, a chyfarfod ag ef ger y nant. Wrth i chi groesi'r rhos, cadwch lygad allan am geiliogod y mynydd, boncathod a chudyllod coch.

Mae'r mynydd hwn, y mae'r rhan fwyaf ohono'n dir comin, yn cwmpasu ardal 10 cilometr gan 5 cilometr. Gwerthwyd ef gan y Goron i Syr Watkin Williams Wynne ar 15 Mehefin 1857 am ychydig dros £208 a rhoddodd Syr Watkin £2,000 am yr hawliau hela hefyd. Mae saethu ceiliogod y coed yn dal i ddigwydd ond mae'r rhos yn gynefin i ddefaid yn fwy na dim. Mae'r ffermwyr lleol yn casglu'r defaid ddwywaith y flwyddyn, yn gyntaf i'w dipio ac yna i'w gyrru i borfeydd is yn y gaeaf. Gelwir symud anifeiliaid byw yn hafota. Cloddiwyd am blwm ar y mynydd flynyddoedd yn ôl ac, i'r gorllewin o'r llwybr, ceir olion pedair siafft a gweithfeydd eraill.

Mae'r ardal uchel helaeth hon, sy'n cynnwys Mynyddoedd Eglwyseg, Rhiwabon ac Esclusham, o ddiddordeb naturiol a daearegol sylweddol ac mae'n ardal gadwraeth arbennig ac yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae'r rhos grug a'r planhigion ac adar cysylltiedig a'r cerrig calch bendigedig i'r de-orllewin yn arbennig o bwysig.

Croeswch y nant ar draws y cerrig camu. Dilynwch y llwybr, sy'n mynd tuag at y ffens yn raddol i'r dde tuag at y ffens ddwbl, yn gyfochrog â'r wal. Ar ôl 600 metr, croeswch y gamfa er mwyn dilyn y llwybr i fyny'r allt. Peidiwch â mynd tuag at y mast. Parhewch i'r gamfa ger y glwyd, gan basio heibio i'r ffermdy a adeiladwyd yn ddiweddar. Parhewch i lawr y ffordd dros y gamfa ger y giât.

Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i'r chwith. Yn Nhan-y-fron, sylwch sut mae'r nant yn llifo dan yr adeiladau. Mae eich camfa nesaf ar y dde, dan y gwifrau pŵer. Gan wyro ychydig i'r dde, croeswch y cae ac ewch trwy'r clawdd rhwng y coed derw ac onnen. Parhewch i'r un cyfeiriad i groesi'r bont ger Plas-y-fron. Ellis Yong o Fryn Iorcyn a Pharc Acton oedd yn berchen ar hwn yn 1780. Ar ôl ei farwolaeth yn 1785, daeth yn eiddo ei ddwy ferch, Penelope a Barbara. Parhaodd yn eu dwylo tan y 19eg ganrif. Erbyn 1844, roedd y fferm, a oedd yn fwy nag 80 hectar (200 erw) ym meddiant John Burton o'r Mwynglawdd. Mae'n bosibl bod darn gwreiddiol y tŷ'n dyddio o 1660. Mae'r teulu Jones, sydd wedi bod yma ers 1925, yn rheoli mwy na 150 hectar (370 erw) o dir pori.

Nawr, cerddwch yn syth ar draws y cae, camwch dros y gamfa a pharhewch ar hyd y ffordd i'r coed, i'r rhaeadr ym Mhentrebychan. Gan wyro i'r chwith,

dilynwch y ffordd heibio i'r goeden dderw fawr i'r gyffordd a throwch i'r chwith.

Parhewch heibio i Waith Hidlo Gronwen Cwmni Dŵr Wrecsam a Dwyrain Sir Ddinbych. Adeiladwyd hwn i buro'r dŵr o gronfa ddŵr Cae-Ilwyd. Awdurdodwyd ef gan ddeddf yn 1880 a estynnodd yr ardal gyflenwi statudol i Sir Gaer ac ymhellach i Sir y Fflint hefyd. Cwblhawyd y gwaith yn 1885 a chynhwysodd tri gwely hidlo a chronfa ddŵr wasanaeth a allai ddal 2.9 miliwn litr. Ychwanegwyd pedwerydd hidlwr yn 1911. Ailwampwyd yr hidlwyr yn 1982.

Hanner ffordd i lawr i'r allt serth, chwiliwch am garreg ar ymyl y ffordd ar y dde, sy'n dwyn yr arysgrif '7 – 1913'. Dywedir bod hyn yn gofeb i ferch a fu farw yma yn 1913 pan syrthiodd o gerbyd tra bod y ffordd yn cael ei hadeiladu.

Trowch i'r dde i lôn ychydig uwchben y tŷ cyntaf. Yn wreiddiol, roedd yr adeilad yn stablau i Fronwylfa, y tŷ ar draws y ffordd. Yn ystod y Rhyfel Mawr, roeddent yn cyflenwi ceffylau i fyddin Prydain. Mae'r padog yn ardd brydferth erbyn hyn.

Parhewch ar hyd y lôn, At fynedfa'r bwthyn o'r 16eg Ganrif. Mae hwn yn adeilad rhestredig gradd II sydd â tho ffrâm nenfforch. Mae'r nenfforch yn rhan o brif fframwaith yr adeilad a ffurfiwyd o ddau ddarn hir a chrwn o bren sy'n codi o'r sylfeini. Tu mewn mae darn bach o fangorwaith a dwb ar y grisiau ond cofiwch fod y tŷ'n annedd breifat ac nad yw ar agor i ymwelwyr. Arferai Tan-y-lan fod yn rhan o Ystad Plas Power ac mae'r teulu Fitzhugh yn dal i ddal hawliau mwynau'r tir.

Ar ôl y gamfa, dilynwch y gwrych hyd nes i chi gyrraedd camfa gornel. Cerddwch ar hyd y lôn trwy'r glwyd a chroeswch y gamfa ar y dde lle mae'r coed conifferaidd. Mae'r coed yn sbriws Norwy yn bennaf, sy'n cael eu tyfu er mwyn eu gwerthu fel coed Nadolig. **Cymerwch y llwybr i'r dde i'r holl adeiladau.**

Dilynwch y llwybr, sy'n gaeedig i ddechrau, yna drwy'r giât mochyn ar hyd ymyl y cae at lôn. Pan fydd y lôn yn gwyro i'r chwith, ewch dros y gamfa ar y dde i'r coed pinwydd.

Ar ben arall y coed, trowch i'r chwith ar hyd y prif lwybr troed i lawr i'r lôn. Trowch i'r dde ac yna i'r dde unwaith eto ar y gyffordd tuag at y Rhos. Nawr, ailddilynwch rhan gyntaf y daith gerdded trwy ail-fynd heibio i'r chwareli, troi i'r dde ar yr hen reilffordd a throi i'r chwith ar y ffordd, yn ôl i'r Sun Inn.

DILYNWCH Y CÔD CEFN GWLAD

PARCHU – GWARCHOD - MWYNHAU

- Byddwch yn ddiogel – blaengynlluniwch a dilynwch unrhyw arwyddion
 - Gadewch glwydi ac eiddo fel ag yr oeddent
- Diogelwch blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref
 - Cadwch gŵn dan reolaeth
 - Rhowch ystyriaeth i eraill

(Helpwch i gadw ein cefn gwlad yn lân – ewch â sbwriel rhywun arall gyda chi)

Os cewch unrhyw broblemau ar y daith gerdded hon neu os hoffech wneud unrhyw sylw arall, ffoniwch yr Is-adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar 01978 292057 neu ewch i www.wrexham.gov.uk/rightsofway.